# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**I-Care Western Bay**

**Pembroke House**
**Charter Court**
**Abertawe**
**SA7 9FS**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# I-Care Western Bay

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | I-Care Dom Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Medi 22 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae I-Care Western Bay yn darparu gwasanaeth cymorth cartref i bobl yn eu cartrefi eu hunain ledled Abertawe a Chastell-nedd Porth Talbot. Gwnaethom siarad â'r bobl, eu perthnasau, y staff gofal, y rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud penderfyniadau dyddiol ynghylch eu gofal a chânt eu cynnwys yn y broses honno. Mae cynlluniau personol cyfredol ar waith ar gyfer y bobl sy'n adlewyrchu eu hanghenion a chânt eu hadolygu ar y cyd â'r bobl yn rheolaidd.

Mae'r bobl wedi meithrin cydberthynasau da â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu rolau, ond gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant digonol ar godi a chario. Codwyd hyn gyda'r darparwr sydd wedi cytuno i fynd i'r afael â'r mater.

Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd digonol ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn ymroddedig ac yn cael ei barchu. Mae i'w weld yn y gwasanaeth bob dydd, a chaiff ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r adborth ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli yn gadarnhaol. Dywedodd y bobl a'r staff wrthym ei bod yn hawdd mynd at aelodau'r tîm rheoli a'u bod yn hyderus y byddent yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Roedd y ffeiliau gofal a welsom yn dangos bod anghenion y bobl yn cael eu hasesu a'u hystyried yn llawn. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ymgynghorir â'r bobl wrth adolygu eu cynlluniau personol a chânt eu hannog i wneud penderfyniadau am eu gofal. Gwelsom fod gan y bobl gopi o'u cynllun personol a datganiad o ddiben y darparwr. Dywedwyd wrthym eu bod yn gwybod sut i fynegi pryder a'u bod yn hyderus y bydd darparwr y gwasanaeth yn gwrando arnynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym, *“They ring me periodically and check that everything is ok and I’m happy with the care”.* Roedd adborth y bobl am eu gofal yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y bobl wrthym “*It’s very personalised”* ac *“I would 100% recommend I-Care. I can’t imagine being with any other provider”.*

Caiff y staff gofal eu recriwtio’n ddiogel a chynhelir y gwiriadau cefndir angenrheidiol cyn iddynt gael cynnig cyflogaeth. Roedd ffeiliau'r staff a welsom yn cynnwys dogfennau adnabod priodol a gwiriad diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu ar ddechrau eu cyflogaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'u rolau. Mae hyn yn golygu y dylai aelodau newydd o staff dreulio digon o amser gydag aelodau o staff profiadol i ddysgu a datblygu yn eu rolau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r staff gofal sy'n ymweld â nhw.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom fatrics hyfforddiant y staff a gwnaethom nodi bod amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu i'r staff, fel diogelwch tân, cymorth cyntaf a hyfforddiant ar feddyginiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod y staff gofal yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu rolau. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a sut i roi gwybod am bryderon diogelu. Gwelsom hefyd fod hyfforddiant arbenigol ar gael, fel ymwybyddiaeth o Ddementia a hyfforddiant ar ymataliaeth. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi i ennill cymwysterau ffurfiol sy'n berthnasol i'w rolau. Mae angen gwella'r ffordd y caiff hyfforddiant codi a chario ei ddarparu, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cytuno i fynd i'r afael â hyn.

Mae trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd da ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff er mwyn cael adborth a gwybodaeth am y gwasanaeth. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio adroddiadau rheoleiddio ac i lywio gwelliannau. Gwelsom fod cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi cael eu hystyried a bod camau wedi cael eu rhoi ar waith lle y bo'n briodol.

## Gofal a Chymorth

Mae cynllun cywir a chyfredol ar waith gan y gwasanaeth i ddiwallu anghenion gofal y bobl. Gwnaethom edrych ar sampl o bedair ffeil gofal a gwelsom fod y cynlluniau personol yn fanwl a'u bod yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl. Caiff asesiad cychwynnol o'r gofal sydd ei angen ei gwblhau cyn i'r pecyn gofal gael ei roi ar waith. Datblygir cynllun personol yn dilyn yr asesiad hwn. Mae gan y bobl gopi o'u cynllun personol, ac mae'r gwasanaeth yn cynnwys y bobl wrth gynnal adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau hynny. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym, "*I am fully involved in my care from day to day and the office involves me in care plan reviews. If I have any concerns, I can discuss them with staff and the office".*

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt drwy wasanaeth a gaiff ei gynllunio drwy ymgynghori â nhw ac sy'n diwallu eu hanghenion. Roedd yr adborth ar y gofal yn gadarnhaol ac roedd y bobl yn canmol y staff gofal yn fawr. Dywedodd y bobl wrthym, *"The carers are fantastic!"* a "*They are flexible in their approach and tailor the calls to my preferences".* a "*They are very sensitive to X's needs, they reassure her and let her know what they are doing"*. Mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg wrth ddarparu gofal ac yn ystyried dewisiadau'r bobl. Mae'r cofnodion dyddiol yn adlewyrchu hyn, a gwelsom fod dewisiadau'r bobl o ran eu gofal yn cael eu parchu. Roedd y rotas staff a welsom yn dangos hyblygrwydd o ran yr amseroedd gofal a hyd yr ymweliadau.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom y matrics hyfforddiant a nodwyd gennym fod y staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae polisi ar waith sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chaiff ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym, ar y cyfan, fod staff rheolaidd yn ymweld â nhw bob dydd a'u bod yn dangos parch atynt ac yn deall eu hanghenion.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi rheoli heintiau cyfredol a chynhwysfawr ar waith a gaiff ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau ac iechyd a diogelwch fel rhan o'u cyfnod sefydlu ynghyd â hyfforddiant gloywi. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'r trefniadau ar gyfer rheoli heintiau a dywedwyd wrthym fod y cwmni yn darparu digon o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE). Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff gofal bob amser yn gwisgo PPE priodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau da ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Mae system monitro galwadau electronig ar waith sy'n galluogi'r rheolwyr i olrhain y galwadau darparu gofal. Mae hyn yn sicrhau bod galwadau yn cael eu cynnal o fewn yr amser a nodir cymaint â phosibl ac yn sicrhau y gellir lleoli'r staff gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i siarad â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff er mwyn cael adborth i lywio unrhyw welliannau gofynnol. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio adroddiadau rheoleiddio o fewn amserlenni priodol. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth briodol o safon dda sy'n llywio datblygiad y gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod y gwasanaeth yn cysylltu â nhw yn rheolaidd er mwyn cael adborth ar eu gofal a'u bod yn teimlo y gallant godi pryderon â'r staff gofal a'r tîm rheoli.

Mae systemau ar waith gan y gwasanaeth i recriwtio staff gofal yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar sampl o 10 ffeil staff a gwelsom eu bod wedi cael eu recriwtio'n ddiogel, bod dogfennaeth adnabod ar gael a bod gwiriadau cefndir wedi cael eu cynnal. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwiriadau diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom y matrics hyfforddiant a nodwyd gennym fod amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant ar gael i'r staff. Fodd bynnag, mae angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant codi a chario. Ar hyn o bryd, mae aelodau newydd o staff yn cael hyfforddiant codi a chario ar-lein, ac mae'r darparwr yn dangos iddynt sut i ddefnyddio'r cyfarpar codi a chario. Er gwaethaf hyn, mae angen i'r staff gofal gael hyfforddiant codi a chario ymarferol achredededig. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni ei fod wedi dod o hyd i hyfforddiant codi a chario addas ar gyfer y staff a chadarnhaodd y dyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant codi a chario priodol ac amserol.

Caiff y staff eu cefnogi i gyflawni gofynion eu rolau. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau bod y staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff gofal wedi'u cofrestru neu'n gweithio tuag at gael eu cofrestru. Caiff y staff gofal eu goruchwylio'n rheolaidd, a chânt arfarniad blynyddol lle y gallant fyfyrio ar eu hymarfer proffesiynol. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a dywedwyd wrthym, *"Any problems that I have I can speak to them, and they will help me any way they can"* a *"They always listen to me and my point of view".* Ar y cyfan, gwelsom fod contractau'r staff yn cael eu trafod yn ystod y sesiynau goruchwylio. Mae angen i hyn barhau, a rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni y byddai hynny'n digwydd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar eu contractau presennol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid oedd chwe aelod newydd o staff wedi cael hyfforddiant codi a chario ymarferol cyn defnyddio cyfarpar codi a chario. Mae angen darparu hyfforddiant Codi a Chario i'r staff cyn iddynt ddefnyddio'r cyfarpar i ddarparu gofal. | Newydd |
| 42 | Nid oes gan rai aelodau o'r staff gontract cyflogaeth cyfredol sy'n adlewyrchu eu horiau gwaith wythnosol gwirioneddol yn ddigonol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/04/2024